Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

## Canllawiau ar gwblhau Datganiad Blynyddol

Mawrth 2025

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron 2024 WG49724 ISBN Digidol 978-1-83577-842-5

## Cynnwys


Cyflwyniad .......... 2

Cyd-destun cyfreithiol .......... 2

Y Datganiad Blynyddol .......... 3

Cael gafael ar y datganiad blynyddol, ei gyflwyno a'i gyhoeddi. .......... 6

Rhagor o gyngor ac arweiniad .......... 8

Atodiad A – Rhestr o gwestiynau i'w cynnwys yn y Datganiad Blynyddol .......... 9

Atodiad B – Cwestiynau Cyffredin .......... 19

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau ar sut i gwblhau a chyflwyno datganiad blynyddol fel sy'n ofynnol o dan adran 10 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016").

2. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer darparwyr gwasanaethau sy'n gweithredu gwasanaethau a reoleiddir o dan Ddeddf 2016. Mae'r rhain yn cynnwys:
   - gwasanaethau cartrefi gofal
   - gwasanaethau llety diogel
   - gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
   - gwasanaethau cymorth cartref
   - gwasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig
   - gwasanaethau maethu rheoleiddiedig
   - gwasanaethau lleoli oedolion
   - gwasanaethau eirioli rheoleiddiedig

## Cyd-destun cyfreithiol

3. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau cofrestredig gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys y wybodaeth a nodir yn Atodlen 10[1] i Ddeddf 2016.

4. Rhaid i'r datganiad blynyddol hefyd gynnwys y wybodaeth nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) Cymru 2017[2] ("y Rheoliadau"), fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol a Chofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2019[3].

5. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob datganiad blynyddol a gyflwynir.

6. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad blynyddol fod ar ffurf datganiad ar-lein a chael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn 56 diwrnod i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi (h.y. 26 Mai).

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/section/10/enacted/welsh
[2] https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/1097/contents/made/welsh
[3] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/233/contents/made/welsh

*Methiant i gyflwyno Datganiad Blynyddol*

7. O dan adran 48[4] o Ddeddf 2016, mae'n drosedd i ddarparwr gwasanaeth fethu â chyflwyno datganiad blynyddol o fewn y terfynau amser a bennir gan y Rheoliadau. Os bydd darparwr gwasanaeth yn methu â chyflwyno datganiad blynyddol o fewn y terfynau amser gofynnol, gallai fod yn destun hysbysiad cosb neu gamau gorfodi eraill[5] fel y bo'n briodol gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

8. O dan adran 52 o Ddeddf 2016, caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad cosb os byddant yn fodlon bod y darparwr gwasanaeth wedi cyflawni trosedd ragnodedig. Mae hyn yn cynnwys methiant i gyflwyno datganiad blynyddol.

9. Noda Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019[6] fod y gosb i'w thalu yn swm sy'n cyfateb i lefel 4 ar y raddfa safonol (sef £2,500).

## Y Datganiad Blynyddol

10. Bydd y datganiad blynyddol yn cynnwys cwestiynau am y darparwr gwasanaeth. Hefyd, bydd cwestiynau am bob un o'r gwasanaethau rheoleiddiedig a weithredir gan y darparwr gwasanaeth. Bydd y cwestiynau yn cynnwys tri math o wybodaeth.
    - Gwybodaeth sy'n ofynnol gan y darparwr gwasanaeth (a'r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'n eu gweithredu) fel y'i diffinnir gan Ddeddf 2016 a'r Rheoliadau.
    - Gwybodaeth sydd ei hangen ar AGC i lywio ei swyddogaethau rheoleiddio, er enghraifft mewn perthynas â hylendid bwyd, ac ati.
    - Gwybodaeth am gofrestriad y darparwr gwasanaeth. Bydd hyn yn galluogi AGC i fwrw golwg ar ddata cofrestru'r darparwr bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gywir.

11. Dylai'r datganiad blynyddol adlewyrchu sefyllfa'r darparwr gwasanaeth a'r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'n eu gweithredu ar 31 Mawrth y flwyddyn ariannol honno. (Lle y bo modd) bydd y datganiad blynyddol eisoes yn cynnwys y wybodaeth a ddelir gan AGC am y darparwr gwasanaeth a'r gwasanaethau y

[4] https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/section/48/enacted/welsh
[5] https://arolygiaethgofal.cymru/darparu-gwasanaeth-gofal/ein-dulliau-gorfodi
[6] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/887/made/welsh

mae'n eu gweithredu. Bydd yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol a nodi hynny'n briodol. Os bydd angen newid y wybodaeth, gofynnir i'r darparwr gwasanaeth ddiweddaru'r proffil ar-lein perthnasol, neu gyflwyno'r hysbysiad neu'r amrywiad perthnasol. **Cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth yw sicrhau bod y wybodaeth a ddelir gan AGC ar y gofrestr leol yn gywir ac yn gyfredol.**

12. Mae'r datganiad blynyddol ar-lein wedi'i ddylunio mewn ffordd sy'n sicrhau y bydd y rhai sy'n cael gafael arno ond yn gweld yr adrannau sy'n berthnasol iddynt. Mae testun rhagarweiniol a thestun cymorth hefyd wedi'i ddarparu er mwyn helpu i egluro'r hyn sydd ei angen ym mhob adran.

13. Bydd y mwyafrif o'r datganiad blynyddol yn gofyn am fewnbynnu cofnodion data rhifyddol, h.y. nifer y staff llawn amser ac ati. Fodd bynnag, bydd angen mewnbynnu testun rhydd mewn rhannau eraill, megis y datganiad cydymffurfio. Bydd pwy bynnag sy'n cwblhau'r datganiad blynyddol ar-lein yn gallu cadw'r wybodaeth a fewnbynnir yn rheolaidd.

14. Nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth lanlwytho unrhyw ddogfennaeth fel tystiolaeth i gefnogi'r hyn a nodwyd yn y datganiad blynyddol. Bydd rhif cyfatebol neu faes testun rhydd wedi'i ddarparu ar gyfer pob cwestiwn yn y datganiad blynyddol ar-lein er mwyn i'r darparwr gwasanaeth nodi ei ymateb. Felly, ni ellir lanlwytho dogfennau i'r datganiad blynyddol ar-lein.

15. Cyn cwblhau'r datganiad blynyddol, bydd y wybodaeth ganlynol o gymorth:
    - Copi o'r adroddiad diweddaraf ar yr Adolygiad o Ansawdd y Gofal[7]
    - Copïau o unrhyw adroddiadau ar ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol
    - Y Datganiad o Ddiben diweddaraf

16. Ceir rhestr o'r cwestiynau i'w cynnwys yn y datganiad blynyddol yn Atodiad A. Argymhellwn y dylai'r cwestiynau hyn gael eu hystyried cyn dechrau'r datganiad blynyddol fel bod y wybodaeth angenrheidiol ar gael.

*Adran darparwr y datganiad blynyddol*

17. Bydd rhan helaeth o adran darparwr y datganiad blynyddol eisoes yn cynnwys gwybodaeth a ddelir gan AGC. Bydd angen i'r darparwr gwasanaeth adolygu'r wybodaeth hon a nodi os yw'n anghywir.

---

[7] https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2019-06/190627-canllawiau-ar-gwblhau-adolygiad-o-ansawdd-y-gofal-cy.pdf

18. Bydd hefyd angen i'r darparwr gwasanaeth ateb dau gwestiwn am y trefniadau sydd ar waith yn ystod y cyfnod adrodd ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion hyfforddi staff a gyflogir a'r trefniadau ar gyfer recriwtio a chadw staff.

*Adran gwasanaeth y datganiad blynyddol*

19. Bydd angen i'r darparwr gwasanaeth ddarparu gwybodaeth am bob un o'r gwasanaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu ar hyn o bryd.

20. Bydd rhywfaint o adran gwasanaeth y datganiad blynyddol eisoes yn cynnwys gwybodaeth a ddelir gan AGC. Bydd angen i'r darparwr gwasanaeth adolygu'r wybodaeth hon a nodi os yw'n anghywir.

21. Bydd angen i gyfran fawr o'r wybodaeth ar lefel gwasanaeth sydd ei hangen ar gyfer y datganiad blynyddol (gweler Atodiad A) gael ei mewnbynnu gan y darparwr gwasanaeth.

22. Rhaid i'r datganiad blynyddol gynnwys datganiad cydymffurfio ar gyfer pob gwasanaeth a weithredir gan y darparwr gwasanaeth. Mae hyn yn nodi sut mae gwasanaeth yn bodloni'r gofynion o ran y safonau gofal a chymorth a nodir yn y rheoliadau gwasanaeth perthnasol. Yr Unigolyn Cyfrifol fydd yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cydymffurfio hwn. Wrth baratoi'r datganiad, rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol ystyried yr adolygiad diweddaraf o ansawdd y gofal a, thrwy hynny, sefydlu cysylltiad clir rhwng yr adolygiad o ansawdd y gofal a datganiad blynyddol y darparwr gwasanaeth.

23. Mae'n ofynnol i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y rhan o'r datganiad blynyddol sy'n ymwneud â'r gwasanaeth y'i dynodwyd ar ei gyfer wedi'i chwblhau. Bydd angen i'r Unigolyn Cyfrifol ddarparu datganiad sy'n cadarnhau ei fod wedi darllen y wybodaeth yn y datganiad blynyddol sy'n ymwneud â'i wasanaeth, a'i fod yn cytuno â hi.

24. Os na fydd Unigolyn Cyfrifol dynodedig ar gael neu y disgwylir i'r Unigolyn Cyfrifol fod yn absennol am fwy na 28 diwrnod, rhaid i'r darparwr gwasanaeth nodi'r rheswm pam na all yr Unigolyn Cyfrifol lofnodi'r datganiad. Bydd y system ar-lein yn darparu cyfleuster ar gyfer hyn.

25. Os bydd darparwr gwasanaeth yn gweithredu mwy nag un gwasanaeth (a bod ganddo fwy nag un Unigolyn Cyfrifol), cyfrifoldeb cyfreithiol Unigolyn Cyfrifol

dynodedig y gwasanaeth yw llofnodi'r datganiad o wirionedd ar gyfer y gwasanaeth hwnnw. Ni all Unigolyn Cyfrifol lofnodi datganiad gwasanaeth arall nad yw wedi'i ddynodi ar ei gyfer.

## Cael gafael ar y datganiad blynyddol, ei gyflwyno a'i gyhoeddi.

*Cael gafael ar y datganiad blynyddol*

26. Bydd darparwyr gwasanaethau yn cael gafael ar eu datganiad blynyddol ar-lein ac yn ei gyflwyno drwy eu cyfrif AGC Ar-lein. Bydd system AGC Ar-lein yn nodi'n glir y cyfnod adrodd y mae angen cyflwyno datganiad blynyddol ar ei gyfer. Bydd y system ar-lein hefyd yn nodi yn y datganiad blynyddol (ar gyfer y cyfnod adrodd dan sylw) y gwasanaethau a weithredir gan y darparwr y mae angen gwybodaeth ar eu cyfer.

27. Bydd modd cael gafael ar y datganiad blynyddol o **1 Ebrill**, bob blwyddyn.

28. Bydd Unigolyn/Unigolion Cyfrifol neu swyddog/swyddogion sefydliad sy'n gysylltiedig â'r darparwr sydd wedi actifadu ei gyfrif/eu cyfrif AGC Ar-lein yn gallu cael gafael ar y datganiad blynyddol, ei gwblhau a'i gyflwyno.

29. Gall unrhyw gynorthwywyr ar-lein (o fewn y gwasanaeth rheoleiddiedig) gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen yn y datganiad blynyddol ar gyfer y gwasanaeth y maent wedi'u penodi ar ei gyfer, a chwblhau'r wybodaeth honno. Fodd bynnag, ni all cynorthwywyr ar-lein gyflwyno'r datganiad blynyddol.

30. Dylai darparwyr gwasanaethau, Unigolion Cyfrifol ac unrhyw gynorthwywyr ar-lein penodedig (o fewn y gwasanaeth rheoleiddiedig) sicrhau eu bod yn gallu mewngofnodi i'w cyfrif ar-lein cyn i'r datganiad blynyddol fod ar gael ar 1 Ebrill. Bydd hyn yn helpu i osgoi unrhyw oedi posibl wrth gwblhau'r datganiad blynyddol.

*Cyflwyno'r Datganiad Blynyddol*

31. Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod yr holl wybodaeth yn y datganiad blynyddol wedi'i chwblhau. Bydd y system ar-lein yn atal darparwr gwasanaeth rhag cyflwyno datganiad blynyddol anghyflawn.

32. O dan Ddeddf 2016, cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth yw cyflwyno'r datganiad blynyddol. Cyn y gellir cyflwyno datganiad blynyddol, rhaid iddo gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan y darparwr gwasanaeth. Mae'r datganiad yn

cadarnhau ei fod wedi darllen y wybodaeth a geir yn y datganiad blynyddol, a'i fod yn cytuno â hi.

33. Byddem yn disgwyl i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau ar waith i gytuno ar gynnwys y datganiad blynyddol, megis drwy drafodaeth cyfarfod bwrdd, cyn ei gyflwyno. Efallai y gofynnwn am gofnodion y cyfarfod i ddangos bod y darparwr gwasanaeth wedi trafod y datganiad blynyddol, a chytuno arno.

34. Bydd gan y darparwr gwasanaeth hyd at **ganol nos** ar **26 Mai**, bob blwyddyn, i gyflwyno ei ddatganiad blynyddol. Os bydd y darparwr gwasanaeth yn cael unrhyw anawsterau wrth gyflwyno ei ddatganiad blynyddol erbyn y terfyn amser, dylai roi gwybod i ni amdanynt cyn gynted â phosibl. Pan fydd y terfyn amser wedi mynd heibio, bydd y system datganiad blynyddol ar-lein yn cau ac ni fydd modd i ddarparwyr gwasanaethau gyflwyno datganiad mwyach.

*Cyhoeddi'r datganiad blynyddol*

35. Dim ond y wybodaeth sy'n ofynnol gan y darparwr gwasanaeth (a'r gwasanaethau rheoleiddiedig y mae'n eu gweithredu) fel y'i diffinnir gan Ddeddf 2016 a'r rheoliadau cysylltiedig a gaiff ei chynnwys yn y datganiad blynyddol a gyhoeddir. Bydd y system datganiad blynyddol ar-lein yn nodi'n glir pa wybodaeth a gaiff ac na chaiff ei chyhoeddi.

36. Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau nad yw eu datganiad blynyddol wedi'i gwblhau yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n adnabod unigolion nac iaith ymfflamychol, cyn ei gyflwyno. Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried eu cyfrifoldebau cyfreithiol eu hunain o ran deddfwriaeth diogelu data a “phrosesu” data personol.

37. Ar ôl i'r datganiad blynyddol gael ei gyflwyno i AGC, caiff dogfen PDF ei chynhyrchu'n awtomatig a bydd modd cael gafael arni drwy gyfrif AGC Ar-lein y darparwr gwasanaeth. Bydd y ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth a geir yn natganiad blynyddol ar-lein y darparwr gwasanaeth. Dogfen ar gyfer cofnodion y darparwr gwasanaeth yw hon, ac ni chaiff ei chyhoeddi.

38. Ar ôl i'r datganiad blynyddol gael ei gyflwyno gan y darparwr gwasanaeth, bydd AGC yn ei adolygu er mwyn sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth y mae modd adnabod unigolion ohoni nac iaith ymfflamychol. Pan fydd wedi'i adolygu,

bydd ein system yn tynnu'r wybodaeth angenrheidiol sy'n ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer fersiwn we o'r datganiad blynyddol i'w chyhoeddi ar wefan AGC. Os bydd datganiad yn cynnwys unrhyw wybodaeth y mae modd adnabod unigolion ohoni neu iaith ymfflamychol, gofynnir i'r darparwr gwasanaeth ddileu'r wybodaeth/iaith hon ac ailgyflwyno'r datganiad.

39. Ni fydd AGC yn cyhoeddi cyfeiriad y gwasanaeth nac unrhyw amod sy'n ymwneud â lleoliad gwasanaeth a gynhwysir fel rhan o ddatganiad blynyddol y darparwr gwasanaeth sy'n ymwneud â gwasanaeth cartref gofal i blant a weithredir gan y darparwr. Dim ond ar ffurf copi caled y bydd y wybodaeth hon ar gael, a hynny ar gais

## Rhagor o gyngor ac arweiniad

40. Ceir cwestiynau cyffredin yn Atodiad B.

41. Os bydd unrhyw ymholiadau am gwblhau neu gyflwyno'r datganiad blynyddol, gall y darparwr gwasanaeth gysylltu ag AGC drwy ffonio 0300 7900 126 a dewis opsiwn 4, neu e-bostio: AGC@llyw.cymru. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Atodiad A – Rhestr o gwestiynau i'w cynnwys yn y Datganiad Blynyddol

*Bydd y rhannau sy'n ymwneud â'r cofrestriad eisoes yn cynnwys y wybodaeth a ddelir gan AGC am gofrestriad y darparwr gwasanaeth.*

**Gwybodaeth sy'n ofynnol am y darparwr gwasanaeth**

| **Pob Darparwr Gwasanaeth** | |
|---|---|
| **Manylion cofrestru'r darparwr gwasanaeth** | |
| Enw'r Darparwr Gwasanaeth *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Dyddiad cofrestru *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Rhif Cwmni Cofrestredig/Elusen (os yw'n gymwys) (*gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | Ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Cyfeiriad Cofrestredig *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Rhif ffôn *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Cyfeiriad e-bost *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Derbyn gohebiaeth a hysbysiadau cyfreithiol i'r cyfeiriad e-bost hwn *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Dewis iaith ar gyfer cyfathrebu dros y ffôn *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Dewis iaith ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Gwefan (os yw'n gymwys) *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Rhestr o Swyddogion Sefydliadol *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Enw'r Cwmni Daliannol a manylion cyswllt perthnasol / Rhif y Cwmni (os yw'n gymwys) *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Amodau a osodwyd ar y cofrestriad *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Rhestr o'r gwasanaethau rheoleiddiedig a gofrestrwyd i'r darparwr *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Disgrifiwch y trefniadau a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion hyfforddiant staff a gyflogwyd gan y darparwr gwasanaeth. *Noder: Caniateir hyd at 500 o nodau ar gyfer y cwestiwn hwn.* | |

| | |
|---|---|
| Disgrifiwch y trefniadau a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer recriwtio a chadw staff a gyflogwyd gan y darparwr gwasanaeth.<br>*Noder: Caniateir hyd at 500 o nodau ar gyfer y cwestiwn hwn.* | |

## Gwybodaeth sy'n ofynnol am bob gwasanaeth sy'n rhan o grŵp y darparwr

### Gwasanaeth (Proffil y Gwasanaeth – Manylion y Gwasanaeth)

| **Pob Math o Wasanaeth** | |
|---|---|
| **Manylion cofrestru'r gwasanaeth** | |
| Enw'r Gwasanaeth *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Dyddiad Cymeradwyo *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Rhif ffôn *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Cyfeiriad e-bost y gwasanaeth *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Beth yw prif iaith/ieithoedd eich gwasanaeth? *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Cyfeiriad y gwasanaeth *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | Ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Cyfeiriad gwefan (os oes un) *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Ym mha iaith yr hoffech gael eich arolygu? *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Ym mha iaith yr hoffech i'ch adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi? *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |

### Gwasanaeth (Proffil y Gwasanaeth – Pobl allweddol yn y gwasanaeth)

| **Pob Math o Wasanaeth** | |
|---|---|
| **Pobl allweddol yn y gwasanaeth** | |
| Rhestr o'r Unigolion Cyfrifol dynodedig ar gyfer y gwasanaeth *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Rhestr o'r rheolwyr gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |

### Gwasanaeth (Proffil y Gwasanaeth – Datganiad o Ddiben)

| **Gwasanaethau lleoli oedolion, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau eirioli a gwasanaethau maethu** | |
|---|---|
| Cyflwynwyd y Datganiad o Ddiben diweddaraf i AGC ar (dyddiad) *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |

| **Gwasanaeth cymorth cartref** | |
|---|---|
| Nifer cyfartalog yr oriau o ofal cartref *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | Ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Yr amrywiaeth o anghenion a gefnogir *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |

| | |
|---|---|
| Cyflwynwyd y Datganiad o Ddiben diweddaraf i AGC ar (dyddiad) *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |

| Cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel a chanolfannau preswyl i deuluoedd | |
|---|---|
| Ystod oedran y bobl a gefnogir *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | Ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Yr amrywiaeth o anghenion a gefnogir *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |
| Cyflwynwyd y Datganiad o Ddiben diweddaraf i AGC ar (dyddiad) *(gwybodaeth eisoes wedi'i chynnwys)* | |

**Gwasanaeth (Gwasanaethau a Ddarperir – Pobl a Gefnogir)**

| Gwasanaethau Maethu | |
|---|---|
| Nifer y plant a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Nifer y teuluoedd maeth a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | |

| Gwasanaethau Mabwysiadu | |
|---|---|
| Nifer y plant a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Nifer y teuluoedd maeth a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | |

| Gwasanaethau eirioli | |
|---|---|
| Nifer y plant a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |

| Gwasanaethau cymorth cartref | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y bobl a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Nifer y bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaeth ar 31 Mawrth | Ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |

**Gwasanaeth (Gwasanaethau a Ddarperir – Pobl a Gefnogir)**

| Gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd yn unig |
|---|

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y bobl a gefnogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Nifer y lleoedd a oedd wedi'u llenwi ar 31 Mawrth | Ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Nifer y lleoedd heb eu llenwi ar 31 Mawrth | |
| Nifer y lleoedd heb eu llenwi a oedd ar gael i leoli unigolyn yn y gwasanaeth ar 31 Mawrth | |
| Faint o leoedd cofrestredig oedd ar gael/nad oeddent ar gael yn y gwasanaeth ar 31 Mawrth? | |
| Faint o'r bobl a oedd yn byw yn y gwasanaeth ar 31 Mawrth oedd yn:<br>• 0-17 oed<br>• 18-64 oed<br>• 65+ oed | |
| Faint o'r bobl a oedd yn byw yn y gwasanaeth ar 31 Mawrth oedd yn perthyn i'r categorïau rhyw canlynol:<br>• Gwryw<br>• Benyw | |
| Faint o'r bobl a oedd yn byw yn y gwasanaeth ar 31 Mawrth oedd yn perthyn i'r grwpiau ethnig canlynol:<br>• Gwyn<br>• Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog<br>• Asiaidd/Asiaidd Prydeinig<br>• Du/Du Prydeinig/Caribïaidd/Affricanaidd<br>• Grwpiau Ethnig Eraill | |
| Faint o bobl oedd yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ar 31 Mawrth, lle awdurdodwyd hynny? | |
| Nifer y bobl yr aseswyd bod angen gofal nyrsio 24 awr arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | |
| | |

**Gwasanaeth (Gwasanaethau a Ddarperir – Ffioedd a Godir)**

| **Gwasanaethau cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref yn unig** | |
|---|---|
| **Gwasanaethau a ddarperir – ffioedd** | |
| Beth oedd y ffi wythnosol isaf a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (Gwasanaethau cartrefi gofal yn unig) | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Beth oedd y ffi wythnosol uchaf a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (Gwasanaethau cartrefi gofal yn unig) | |
| Beth oedd y gyfradd fesul awr isaf a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (Gwasanaethau cymorth cartref yn unig) | |

| | |
|---|---|
| Beth oedd y gyfradd fesul awr uchaf a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? (Gwasanaethau cymorth cartref yn unig) | |

**<u>Gwasanaeth (Gwasanaethau a Ddarperir – Cwynion)</u>**

| **Pob Math o Wasanaeth** | |
|---|---|
| **Cwynion ac ymgynghori** | |
| Cyfanswm nifer y cwynion ffurfiol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf?<br>• Nifer y cwynion gweithredol sy'n weddill<br>• Nifer y cwynion a gadarnhawyd<br>• Nifer y cwynion a gadarnhawyd yn rhannol<br>• Nifer y cwynion nas cadarnhawyd | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Pa drefniadau a wnaed i ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth am ei weithrediad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf?<br>*Noder: Caniateir hyd at 1000 o nodau ar gyfer y cwestiwn hwn.* | |

**<u>Gwasanaeth (Gwasanaethau a Ddarperir – Amgylchedd y Gwasanaeth)</u>**

| **Gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd yn unig** | |
|---|---|
| Sawl un o'r ystafelloedd gwely yn y gwasanaeth sy'n ystafelloedd sengl? | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Sawl un o'r ystafelloedd gwely yn y gwasanaeth sy'n ystafelloedd a rennir? | |
| Sawl un o'r ystafelloedd gwely hyn sydd â chyfleusterau en-suite? | |
| Sawl ystafell ymolchi sydd â chyfleusterau ymolchi â chymorth? | |
| Sawl lolfa gymunedol sydd yn y gwasanaeth? | |
| Sawl ystafell fwyta sydd yn y gwasanaeth? | |
| Rhowch fanylion am unrhyw ardal awyr agored y gall y preswylwyr ei defnyddio<br>*Noder: Caniateir hyd at 1000 o nodau ar gyfer y cwestiwn hwn.* | |
| Rhowch fanylion am unrhyw gyfleusterau eraill y gall y preswylwyr eu defnyddio<br>*Noder: Caniateir hyd at 1000 o nodau ar gyfer y cwestiwn hwn.* | |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ystafelloedd gwely yn y gwasanaeth yw: | Ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Sawl ystafell wely yn y gwasanaeth a ddefnyddir gan fwy nag un person ar hyn o bryd? | |
| Sawl ystafell wely sengl yn y gwasanaeth sy'n wag? | |
| Sawl ystafell wely a rennir yn y gwasanaeth sy'n wag? | |

**Gwasanaeth (Gwasanaethau a Ddarperir – Hylendid Bwyd)**

| **Gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd yn unig** | |
|---|---|
| A ydych yn darparu bwyd i bobl yn eich gwasanaeth? | Ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| A ydych yn defnyddio system i reoli diogelwch bwyd / system gofnodi? | |
| A ydych wedi'ch cofrestru fel busnes bwyd gyda'ch awdurdod lleol? | |
| A ydych wedi cael eich arolygu gan yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | |
| A yw eich busnes wedi cael sgôr hylendid bwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd? | |
| Pa sgôr y mae'r gwasanaeth wedi'i chael? | |

**Gwasanaeth (Gwasanaethau a Ddarperir – Eich Staff)**

| **Pob Math o Wasanaeth** | |
|---|---|
| **Staffio**<br>Yn ymwneud â'r rolau posibl canlynol yn y gwasanaeth: Rheolwr y Gwasanaeth, Dirprwy Reolwr y Gwasanaeth, Staff Goruchwylio Eraill, Staff Gofal Nyrsio, Nyrsys Cofrestredig, Uwch-weithwyr Gofal Cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol, Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Eraill sy'n darparu gofal uniongyrchol, Staff Domestig, Staff Arlwyo, Mathau Eraill o Staff | |
| Cyfanswm nifer y swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (ar 31 Mawrth) | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Cyfradd trosiant staff (ar 31 Mawrth) | |
| Nifer y staff (yn ôl y math o staff a nodir yn y Rheoliadau)<br>• Nifer y staff mewn swydd (ar 31 Mawrth)<br>• Nifer y swyddi gwag i'w llenwi (ar 31 Mawrth)<br>• Nifer y swyddi gwag a ddelir (ar 31 Mawrth) | |
| Cyfanswm nifer y bobl mewn swydd (ar 31 Mawrth) | Ni chaiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y |
| Nifer y staff (yn ôl y math o staff a nodir yn y Rheoliadau) | |

| | |
|---|---|
| • Nifer y newydd-ddyfodiaid (yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf)<br>• Nifer yr ymadawyr (yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf) | datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Nifer y staff (a gyflogir gan y darparwr gwasanaeth) sydd wedi cael yr hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â'r categorïau isod (yn ôl y math o staff a nodir yn y Rheoliadau).<br>• Sefydlu<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol<br>• Codi a Chario<br>• Atal a Rheoli Heintiau<br>• Diogelu<br>• Rheoli Meddyginiaethau<br>• Dementia (nid yw'n gymwys i wasanaethau plant)<br>• Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol<br>• Hyfforddiant Hylendid Bwyd<br>• Hyfforddiant ychwanegol a gafwyd | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Y math o drefniadau cytundebol a oedd ar waith ar gyfer staff cyflogedig ar 31 Mawrth (yn ôl y math o staff a nodir yn y Rheoliadau)<br>• Contract parhaol<br>• Contract cyfnod penodol<br>• Gwirfoddolwr<br>• Asiantaeth / Banc<br>• Contract oriau heb eu gwarantu (dim oriau)<br><br>Ar gyfer staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn unig:<br>• Amser llawn (35 awr neu fwy)<br>• Rhan amser (17-34 awr)<br>• Rhan amser (16 awr neu lai) | |
| Cymwysterau staff cyflogedig ar 31 Mawrth (yn ôl y math o staff a nodir yn y Rheoliadau)<br>• Wedi ennill y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (lle y bo'n berthnasol) | |

| | |
|---|---|
| • Yn gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (lle y bo'n berthnasol)<br><br>Ar gyfer 'staff arlwyo' a 'staff domestig':<br>• Yn meddu ar gymhwyster gofynnol (fel sy'n ofynnol gan y darparwr)<br>• Yn gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir (fel sy'n ofynnol gan y darparwr) | |
| Patrymau sifft nodweddiadol sydd ar waith ar gyfer y categorïau o staff a nodwyd:<br>• Staff gofal nyrsio<br>• Nyrsys cofrestredig<br>• Uwch-weithwyr gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol<br>• Gweithwyr gofal cymdeithasol eraill sy'n darparu gofal uniongyrchol<br><br>*(Gwasanaethau llety yn unig)*[8]<br><br>*Noder: Caniateir hyd at 10000 o nodau ar gyfer y cwestiwn hwn.* | |

**Gwasanaeth (Gwasanaethau a Ddarperir – Cyfathrebu â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth)**

| **Pob Math o Wasanaeth** | |
|---|---|
| Ieithoedd eraill a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |
| Nodwch unrhyw ddulliau cyfathrebu dieiriau a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth, gan gynnwys:<br>• System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS)<br>• Triniaeth ac Addysg Plant Sydd ag Awtistiaeth ac Anabledd Cyfathrebu Cysylltiedig (TEACCH)<br>• Makaton<br>• Iaith Arwyddion Prydain<br>• Arall (*Noder: Caniateir hyd at 200 o nodau ar gyfer y cwestiwn hwn)* | |

**Gwasanaeth (Gwasanaethau a Ddarperir – Datganiad Cydymffurfio)**

| **Pob Math o Wasanaeth** |
|---|

[8] Gwasanaethau cartrefi gofal, gwasanaethau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel

| | |
|---|---|
| Dylai eich datganiad cydymffurfio nodi sut rydych yn bodloni'r gofynion o ran y safonau gofal a chymorth yn unol â'r pedwar maes llesiant canlynol:<br>1. I ba raddau y mae'r bobl yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed, bod ganddynt ddewis o ran eu gofal a'u cymorth, a bod cyfleoedd ar gael iddynt.<br><br>2. I ba raddau y mae'r bobl yn hapus ac yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol parhaus. I blant, bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol.<br><br>3. I ba raddau y mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod.<br><br>4. I ba raddau y mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cynnal eu llesiant ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol yn y ffordd orau posibl. *(Gwasanaethau llety yn unig)*<br><br>***Noder:*** *Caniateir hyd at 2500 o nodau ar gyfer pob cwestiwn yn ymwneud â'r Datganiad Cydymffurfio.* | Caiff y wybodaeth hon ei chynnwys yn y datganiad blynyddol cyhoeddedig |

## Atodiad B – Cwestiynau Cyffredin

**1. Sut y gall y darparwr gwasanaeth ddefnyddio AGC Ar-lein?**

Rhaid bod gennych gyfrif defnyddiwr i ddefnyddio AGC Ar-lein a defnyddio'r Gwasanaethau Ar-lein. Mae AGC Ar-lein ar gael ar wefan AGC https://arolygiaethgofal.cymru/gwasanaethau-ar-lein

**Os nad oes gennych gyfrif defnyddiwr AGC Ar-lein:** gallwch wneud cais am gyfrif defnyddiwr drwy ddewis y botwm "Creu Cyfrif Newydd" ar sgrin fewngofnodi AGC Ar-lein. Gofynnir i chi ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen, gan gynnwys eich PIN actifadu.

**Cael eich PIN actifadu:** mae PIN actifadu wedi'i anfon at bob Unigolyn Cyfrifol dynodedig i'r cyfeiriad sydd gan AGC ar gyfer pob unigolyn.

Os ydych yn Unigolyn Cyfrifol ac nad ydych wedi cael eich PIN actifadu, neu os ydych wedi colli eich PIN actifadu neu mae wedi'i ddadactifadu, bydd angen i chi ffonio AGC ar 0300 7900 126 a dewis opsiwn 4.

Os byddwch yn cael unrhyw anawsterau wrth geisio cael gafael ar y ffurflen datganiad blynyddol ar-lein, ffoniwch AGC ar 0300 7900 126 a dewiswch opsiwn 4 yn y lle cyntaf.

**2. A all mwy nag un person helpu i gwblhau'r datganiad blynyddol?**

Gall unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r darparwr helpu i gwblhau'r datganiad blynyddol. Mae hyn yn cynnwys Unigolion Cyfrifol a Swyddogion Sefydliadau sydd wedi actifadu eu cyfrif AGC Ar-lein. Gall Cynorthwywyr Ar-lein hefyd gwblhau y rhan fwyaf o'r datganiad blynyddol (ac eithrio datganiadau ac unrhyw drafodion cyfatebol y mae angen eu cwblhau).

**3. A oes angen cwblhau'r datganiad blynyddol i gyd ar yr un pryd?**

Nac oes. Gellir cwblhau'r datganiad blynyddol dros gyfnod o amser ac mewn unrhyw drefn (ac eithrio datganiadau y mae'n rhaid iddynt gael eu cwblhau ar ôl i'r holl wybodaeth arall gael ei hychwanegu), a gall mwy nag un unigolyn ei gwblhau.

**4. A oes angen cyflwyno'r datganiad blynyddol eleni os mai newydd gofrestru y mae'r darparwr?**

Os cafodd y darparwr gwasanaeth ei gofrestru yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad blynyddol yn ymwneud â hi, yna mae'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno datganiad blynyddol.

**5. Beth sy'n digwydd os bydd endid cyfreithiol y darparwr gwasanaeth wedi newid?**

Os bydd endid cyfreithiol y darparwr gwasanaeth wedi newid, cysylltwch â thîm cofrestru AGC ar unwaith i drafod y mater. Bydd angen i chi gysylltu ag AGC ar 0300 7900 126 a dewis opsiwn 1.

6. **A oes angen cyflwyno datganiad blynyddol os yw'r darparwr gwasanaeth wedi sefydlu gwasanaeth a reoleiddir o'r newydd?**

Os cafodd y gwasanaeth ei gymeradwyo (fel rhan o gofrestriad y darparwr gwasanaeth) ac roedd yn weithredol yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r datganiad blynyddol yn ymwneud â hi, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth rheoleiddiedig hwnnw yn y datganiad blynyddol.

Os cafodd y gwasanaeth ei gymeradwyo yn ystod y cyfnod adrodd, ond nad oedd yn weithredol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod adrodd hwnnw, rhaid i'r darparwr gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth rheoleiddiedig hwnnw yn y datganiad blynyddol o hyd. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r cwestiwn am nifer y bobl y darparwyd gofal a chymorth iddynt gan y gwasanaeth rheoleiddiedig hwnnw, dylai'r darparwr nodi sero.

Bydd y datganiad blynyddol yn nodi'n glir pa wasanaethau y mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â nhw.

7. **A oes angen i'r datganiad blynyddol gynnwys gwybodaeth am wasanaeth rheoleiddiedig sydd wedi'i ddileu o gofrestriad y darparwr gwasanaeth?**

Nac oes. Os bydd gwasanaeth rheoleiddiedig wedi'i ddileu o gofrestriad y darparwr gwasanaeth, ni fydd angen i'r datganiad blynyddol gynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth hwnnw.

8. **Pa gyfnod a gwmpesir gan y wybodaeth yn y datganiad blynyddol?**

Mae'r wybodaeth yn y datganiad blynyddol yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

9. **Pryd y bydd y datganiad blynyddol ar gael i'w gwblhau?**

Bydd y datganiad blynyddol ar gyfer pob cyfnod adrodd ar gael o gyfrif AGC Ar-lein y darparwr gwasanaeth o **1 Ebrill,** bob blwyddyn.

10. **Pryd y bydd angen i'r datganiad blynyddol gael ei gyflwyno?**

Rhaid i'r datganiad blynyddol gael ei gyflwyno drwy gyfrif AGC Ar-lein y darparwr gwasanaeth erbyn **23:59:59 ar 26 Mai**, bob blwyddyn.

11. **A allaf gyflwyno'r datganiad blynyddol ar ôl y terfyn amser?**

Na. Unwaith y bydd y terfyn amser wedi mynd heibio, bydd y system datganiad blynyddol ar-lein yn cau ac ni fyddwch yn gallu cyflwyno eich datganiad blynyddol mwyach.

12. **A allaf ddarparu tystiolaeth ategol?**

Na. Nid yw'n ofynnol i'r darparwr gwasanaeth ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r hyn y mae wedi ei gynnwys yn y datganiad blynyddol, ac nid yw'r system datganiad blynyddol ar-lein yn cynnig cyfleuster i lanlwytho unrhyw ddogfennau ategol chwaith.

13. **Ym mha iaith y caiff y datganiad blynyddol ei gyhoeddi?**

O dan Safonau'r Gymraeg mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Felly, **rhaid** i ddarparwyr gwasanaethau Awdurdodau Lleol gyflwyno eu datganiad blynyddol gyda'r testun gofynnol yn Gymraeg **ac yn** Saesneg. Nid oes rhaid i ddarparwyr gwasanaethau Awdurdodau Lleol gwblhau datganiadau blynyddol ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg; bydd y system yn cynhyrchu'r cwestiynau y mae'n rhaid eu cwblhau yn y ddwy iaith ac yn tynnu'r ymatebion yn systematig i fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o'r datganiad blynyddol pan gaiff ei gyhoeddi.

Gall pob darparwr gwasanaeth annibynnol ddewis cyhoeddi ei ddatganiad blynyddol yn Gymraeg yn unig, yn Saesneg yn unig, neu yn y ddwy iaith. Caiff y darparwr gwasanaeth annibynnol ddewis hynny wrth gwblhau'r datganiad blynyddol. Bydd yr iaith gyhoeddi yn dibynnu ar yr iaith y cwblhawyd y datganiad blynyddol. Er enghraifft, os bydd y darparwr gwasanaeth annibynnol yn dewis cyhoeddi'r datganiad blynyddol yn y ddwy iaith, bydd y system yn cynhyrchu'r cwestiynau y bydd angen eu cwblhau yn y ddwy iaith ac yn tynnu'r ymatebion yn systematig i fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o'r datganiad blynyddol pan gaiff ei gyhoeddi. Byddai angen i'r darparwr gwasanaeth annibynnol ddarparu'r ymateb i'r cwestiynau hyn yn y ddwy iaith.

### 14. Mae'r wybodaeth sydd eisoes wedi'i nodi yn fy natganiad blynyddol yn anghywir – a ellir ei chywiro?

Os bydd y darparwr gwasanaeth yn gweld unrhyw wybodaeth am ei gofrestriad y mae angen ei diweddaru, gall gyflwyno hysbysiad neu amrywiad drwy AGC Ar-lein. Fodd bynnag, rhaid i'r datganiad blynyddol adlewyrchu'r data cofrestru craidd sydd gan AGC ar 31 Mawrth. Cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth yw sicrhau bod ei gofrestriad yn parhau'n gyfredol ac yn gywir.

Gellir diweddaru'r proffil, megis newid rhif ffôn y busnes neu gyfeiriad e-bost y busnes, ar-lein a chaiff y datganiad blynyddol ei ddiweddaru'n syth pan gaiff y system ei hail-lwytho.

### 15. Beth sy'n digwydd ar ôl i'r darparwr gwasanaeth gyflwyno'r datganiad blynyddol?

Caiff dogfen PDF ei chynhyrchu'n awtomatig a bydd modd cael gafael arni drwy gyfrif AGC Ar-lein y darparwr gwasanaeth. Bydd y ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth a geir yn natganiad blynyddol ar-lein y darparwr gwasanaeth. Dogfen ar gyfer cofnodion y darparwr gwasanaeth yw hon, ac ni chaiff ei chyhoeddi.

Bydd AGC yn adolygu'r datganiad blynyddol er mwyn sicrhau nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n adnabod unigolion, iaith ymfflamychol, ac ati. Unwaith y caiff y datganiad blynyddol ei adolygu, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGC. Os bydd y datganiad blynyddol yn cynnwys y math hwn o wybodaeth, gofynnir i'r darparwr gwasanaeth ei dileu ac ailgyflwyno ei ddatganiad blynyddol.

**16. A ellir newid y datganiad blynyddol ar ôl ei gyflwyno?**
Mae AGC yn disgwyl i'r darparwr gwasanaeth roi trefniadau ar waith i wirio cynnwys y datganiad blynyddol a chytuno arno cyn ei gyflwyno.

Unwaith y bydd AGC wedi adolygu datganiad blynyddol a'i gyhoeddi ar ei gwefan, ni ellir ei newid. Os bydd y darparwr gwasanaeth o'r farn bod y datganiad blynyddol a gyflwynwyd yn cynnwys gwall, dylai gysylltu ag AGC cyn gynted â phosibl ar 0300 7900 126 a dewis opsiwn 4.

**17. A all Unigolyn Cyfrifol nad yw'n Unigolyn Cyfrifol dynodedig lofnodi'r datganiad o wirionedd ar gyfer gwasanaeth?**
Na. Dim ond yr Unigolyn Cyfrifol dynodedig a all lofnodi'r datganiad o wirionedd ar gyfer gwasanaeth. Os bydd darparwr gwasanaeth yn gweithredu mwy nag un gwasanaeth, **ni chaiff** Unigolion Cyfrifol eraill a ddynodwyd o fewn y darparwr gwasanaeth lofnodi'r datganiad o wirionedd ar gyfer unrhyw wasanaeth arall nad yw wedi'i ddynodi ar ei gyfer.

Fodd bynnag, os na fydd Unigolyn Cyfrifol ar waith neu os disgwylir i'r Unigolyn Cyfrifol fod yn absennol (am 28 diwrnod neu fwy), mae'r datganiad blynyddol yn darparu datganiad amgen y gellir ei ddatgan gan unigolyn arall o fewn y darparwr gwasanaeth.

**18. A allaf lawrlwytho copi o fy Natganiad Blynyddol?**
Gallwch lawrlwytho copi o'r datganiad blynyddol mewn dwy ffordd:

- <u>Cyn ei gyflwyno</u>. Pan fyddwch wedi nodi'r holl wybodaeth angenrheidiol yn eich datganiad blynyddol, gallwch ddewis y dudalen ‘Datgan a Chyflwyno’ a chewch yr opsiwn i lawrlwytho copi cyn ei gyflwyno. Gallwch ddefnyddio'r opsiwn hwn os bydd angen i chi rannu copi o'ch Datganiad Blynyddol i'w gymeradwyo drwy eich prosesau llywodraethu mewnol.
- <u>Ar ôl ei gyflwyno.</u> Gallwch gael gafael ar eich Datganiad Blynyddol wedi'i gyflwyno o brif dudalen y Datganiad Blynyddol. Cliciwch ar y botwm lawrlwytho ar gyfer y flwyddyn berthnasol a chaiff fersiwn pdf o'ch Datganiad Blynyddol ei chynhyrchu.

**19. Mae'r Datganiad Blynyddol yn gofyn faint o bobl rydym wedi darparu cymorth iddynt. Bydd nifer y bobl rydym yn darparu cymorth iddynt yn amrywio yn ystod y cyfnod adrodd, felly ar ba bwynt y dylem nodi'r cyfanswm?**

Mae'r cwestiwn yn gofyn i chi nodi **cyfanswm** y bobl y gwnaethoch ddarparu gofal a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn – nid nifer y bobl ar unrhyw adeg benodol.

Er enghraifft, i gyfrifo faint o bobl y gwnaethoch ddarparu gofal a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn mewn gwasanaeth cartref gofal, defnyddiwch nifer y bobl yr oeddech yn darparu gofal iddynt ar ddechrau'r flwyddyn, yn ogystal â nifer y derbyniadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ariannol; bydd hyn yn rhoi "cyfanswm nifer y bobl rydych wedi darparu cymorth iddynt".

Os ydych wedi darparu gofal a chymorth i unigolyn fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn, dylid ychwanegu pob 'cyfnod o ofal a chymorth' at eich cyfanswm.

**20. Cefais fy nynodi'n Unigolyn Cyfrifol yn ddiweddar. A ddylwn gwblhau'r Datganiad Blynyddol o'r adeg y cefais fy nynodi'n Unigolyn Cyfrifol, neu ar gyfer y cyfnod adrodd cyfan?**

Cofnod darparwr yw'r datganiad blynyddol. Mae'n ofynnol i ddarparwr gwasanaeth gyflwyno datganiad blynyddol ar gyfer y cyfnod adrodd. **Nid** yw'r datganiad blynyddol yn seiliedig ar yr adeg y dynodwyd yr Unigolyn Cyfrifol yn gyfrifol am wasanaeth.

Os oes darparwr newydd wedi prynu'r gwasanaeth ac wedi ei gofrestru o dan endid cyfreithiol newydd, dim ond ar gyfer cyfnod y cofrestriad newydd hwnnw y byddwch yn cwblhau Datganiad Blynyddol.

**21. Beth yw gwybodaeth y mae modd adnabod unigolion ohoni**

Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau nad yw eu datganiad blynyddol wedi'i gwblhau yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n adnabod unigolion nac iaith ymfflamychol, cyn ei gyflwyno. Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried eu cyfrifoldebau cyfreithiol eu hunain o ran deddfwriaeth diogelu data a "phrosesu" data personol.

Gall gwybodaeth y mae modd adnabod unigolion ohoni gynnwys defnyddio rhagenwau rhywedd yn ogystal â gwybodaeth bellach y mae modd adnabod unigolion ohoni fel;

- Cyflyrau iechyd
- Manylion am anghenion gofal a chymorth
- Dyddiad derbyn
- Blaenlythrennau
- Lleoliad yn y gwasanaeth

Gall nodi mwy nag un darn o wybodaeth olygu bod modd adnabod unigolyn mewn gwasanaeth.

Rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio dyfyniadau uniongyrchol gan aelodau o'r teulu hefyd gan y gall y rhain hefyd olygu bod modd adnabod defnyddwyr unigol y gwasanaeth yn anfwriadol.